

## Beth mae'r cwrs yn ei gynnis i mi?

Bydd y cwrs yma yn eich helpu i ddysgu am y canlynol:

- Datblygu sgiliau Perfformio, Cyfansoddi a Gwerthuso;
- Cerddoriaeth yng Nghymru: Cerddoriaeth Werin i Stereophonics;
- Cerddoriaeth i'r Llywyfan a'r Sgrîn: Swan Lake, Wicked, Harry Potter, Dr. Who, James Bond, Jaws;
- Esblygiad Cerdd: Minimaliaeth, Jazz, Pop, Techno, Metallica, Led Zeppelin, Genod Droog, Fusion, Hip-hop;
- Adeiledd Cerddorol: Clasurol i Coldplay ac N-Dubz.

## Sut fyddai'n dysgu?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau cyfansoddi, gwrando a pherfformio. Bydd dwy wers yr wythnos. Nid yw'r pwyslais ar dasgau ysgrifenedig ond ar greu cerddoriaeth, ymateb i gerddoriaeth a pherfformio, boed yn lleisiol, offerynnol, rapio, dj-ing neu beat boxing. Y disgybl i ddewis pa gyfrwng.

Bydd y disgyblion yn cyfansoddi ar y cyfrifiadur, trwy fwydo eu cyfansoddiadau i fewn i'r feddalwedd trwy gyfrwng allweddell, canu â meicroffon, chwarae gitâr. Pa bynnag ddull o berfformio mae'r disgyblion orau ynddo.

Nid yw darllen cerddoriaeth yn hanfodol i lwyddo yn y cwrs.

## Sut fyddai'n cael fy asesu?

- Gwaith Cwrs (30%)      Cyfansoddi 2 ddarn (y ffolio i gyd hyd at 5 munud o hyd)  
e.e.    1 Cân bop  
          2 Cerddoriaeth ar gyfer ffilm
- Perfformio (30%)      Unawd ac mewn ensemble  
e.e. Canu, Chwarae offeryn (Piano, Drymiau, Gitâr, Prês, Telyn ac yn y blaen), Dj-ing, Rapio, Beat Boxing, Perfformio mewn Band, Deuawd offerynnol, Ensemble lleisiol ac yn y blaen.
- Arholiad Gwerthuso (40%)      Papur gwrando 1½ awr.  
e.e. Cwestiynau gwrando byrion ar y 4 Maes Astudiaeth (Cerddoriaeth draddodiadol i fyd pop).

## Cofiwch!

- Mae pwyslais cryf ar waith ymarferol a chreadigol.
- Mae'n gwrdd diddorol ac amrywiol ble ceir cyfle i fynychu gweithdai cerddorol diri e.e. Gweithdy Stiwdio, Gweithdy Cyfansoddi, Gweithdy Bandit, Ymweld â chyngherddau / Sioeau (Taith i'r West End yn Llundain) ac yn y blaen.

**Am wybodaeth pellach cysylltwch â:**

**Mrs Delyth Humphreys**

TGAU Cerdd

